

Rhif: WG36970

Llywodraeth Cymru – Dogfen Ymgynghori



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut fedrwn ni helpu Gweinidogion Cymru i fesur cynnydd y genedl?

Cynigion ar gyfer datblygu cyfres o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru, a cheisio barn am y dangosyddion cenedlaethol.

Dyddiad cyhoeddi: 28 Ionawr 2019

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Ebrill 2019

Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn am gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol y bydd cerrig milltir cenedlaethol Cymru yn cael eu datblygu yn eu herbyn. Bwriedir i gerrig milltir cenedlaethol Cymru helpu Gweinidogion i asesu'r cynnydd tuag at sicrhau Cymru lewyrchus, gydnerth, fwy cyfartal ac iachach, gyda chymunedau cydlynus, diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Dyma'r saith nod llesiant a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r dangosyddion cenedlaethol presennol.

Mae'r ddogfen hon yn gosod meini prawf arfaethedig ar gyfer dewis cyfres fach o gerrig milltir cenedlaethol, yn nodi ein cynigion ar gyfer y gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol i'w defnyddio i ddatblygu'r cerrig milltir cenedlaethol, ac yn rhoi cyfle i nodi mân newidiadau i'r dangosyddion cenedlaethol.

Gallwch gyflwyno eich sylwadau drwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein, anfon e-bost neu lenwi copi caled o'r ffurflen ymateb a'i hanfon at y cyfeiriad isod.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad yw 19 Ebrill 2019.

Cerrig Milltir Cenedlaethol Cymru
Swyddfa'r Cabinet
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, mewn braille ac mewn ieithoedd eraill.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>

Tudalennau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar wefan Llywodraeth Cymru
<https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

Tudalennau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=10103>

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

e-bost: cabinetoffice@llyw.cymru
rhif ffôn: 0300 025 1781/0300 025 5776

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ymatebion ymgynghoriad ymhellach, gall y gwaith gael ei gomisiynu i'w gyflawni gan drydydd parti achrededig (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Bydd unrhyw waith o'r fath ond yn cael ei gyflawni dan gcontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn gosod gofynion caeth ar gyfer prosesu a diogelu data personol. Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os bydd eich manylion yn cael eu cyhoeddi fel rhan o ymateb i ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol ar ôl eu cyhoeddi. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cadw unrhyw ddata personol arall am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch, a chael mynediad atynt
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu i'r data gael eu prosesu neu i gyfyngu ar hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau), i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am ymarfer eich hawliau o dan GDPR, mae'r manylion cyswllt isod :

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>


Cynnwys

Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?	1
<hr/>	
Beth a olygir wrth ddweud cerrig milltir cenedlaethol?	2
<hr/>	
Y meini prawf ar gyfer dewis cerrig milltir cenedlaethol	2
<hr/>	
Y dangosyddion cenedlaethol y byddwn yn eu defnyddio i osod cerrig milltir cenedlaethol	4
<hr/>	
Defnyddio'r cerrig milltir cenedlaethol	9
<hr/>	
Sut bydd y cerrig milltir cenedlaethol yn cael eu gosod	13
<hr/>	
Newidiadau i'r dangosyddion cenedlaethol presennol	14
<hr/>	
Atodiad A - Templedi Ymateb	15
<hr/>	

Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

Rydym yn ymgynghori ar ein cynigion i osod cerrig milltir cenedlaethol i Gymru a fydd yn ein helpu ni a'n partneriaid i symud ymlaen i gyflawni'r nodau llesiant.

Yn 2015, pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Ebrill 2015, ac mae'n gosod saith nod llesiant i Gymru. Mae'r nodau hynny fel a ganlyn:



Ffigur 1 – Saith Nod Llesiant Cymru

Gosodwyd dangosyddion cenedlaethol fel ffordd o fesur cynnydd yn erbyn y nodau llesiant hyn, er mwyn i ni i gyd fedru gweld os yw pethau'n gwella i Gymru gyfan.

Bydd cerrig milltir cenedlaethol Cymru yn gosod y disgwyliadau o ran cynnydd, gan gynnwys graddfa a chyflymder y newid gofynnol, ac yn caniatáu i ni asesu a ydym ar y trywydd iawn. Mae hyn yn un o ofynion cyfreithiol y Ddeddf¹, ac yn gwneud cyfraniad pwysig i helpu cyrff cyhoeddus Cymru i gyflawni'r nodau llesiant.

Mae'n dangosyddion cenedlaethol hefyd yn ein helpu i fesur cynnydd yng Nghymru tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Bydd gosod cerrig milltir hefyd yn helpu i ddangos y cynnydd rydym am ei weld tuag at y nodau hyn².

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf a ddefnyddiwyd i bennu cerrig milltir posib, y gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol y bydd y cerrig milltir yn cael eu datblygu yn eu herbyn, a sut y byddwn yn gosod ac yn defnyddio'r cerrig milltir.

Mae dros ddwy flynedd bellach ers cyhoeddi'r dangosyddion cenedlaethol³, a bydd nifer o wersi wedi cael eu dysgu yn ystod y cyfnod hwnnw wrth i sefydliadau ac unigolion gael profiad o'u defnyddio yn ymarferol. Ar sail hyn, hoffem glywed a fyddai modd gwella'r dangosyddion.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad yw 19 Ebrill 2019.

1 Gellir gweld y gofyniad hwn yn Adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gweler <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents>

2 <https://www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals/>

3 <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?skip=1&lang=cy>

Beth a olygir wrth ddweud cerrig milltir cenedlaethol?

Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid gosod cerrig milltir "...y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddent yn cynorthwyo i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant." Wrth wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru bennu sut y byddwn yn gwybod bod y garreg filltir honno wedi ei chyflawni ac erbyn pryd mae angen ei chyflawni.

Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu bod angen i ni osod cyfres o fesurau yn erbyn dangosyddion cenedlaethol a fydd yn ein helpu i ddeall ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn a'n bod ni fel cenedl ar y ffordd i gyflawni'r nodau llesiant.

Gallai carreg filltir genedlaethol fod yn darged penodol, ystod benodol neu ffordd arall o'n helpu i ddeall ein bod ar y trywydd iawn.

Y meini prawf ar gyfer dewis cerrig milltir cenedlaethol

Rydym yn cynnig pum maen prawf hanfodol ar gyfer dewis cerrig milltir cenedlaethol.

Pum maen prawf ar gyfer dewis cerrig milltir cenedlaethol

1

Nifer cyfyngedig er mwyn medru canolbwyntio'n hymdrechion

Beth yw'r rheswm dros y maen prawf hwn?

Lluniwyd y saith nod llesiant i fod yn gysylltiedig â'i gilydd, gan adlewyrchu'r ffordd gymhleth mae ffactorau a fydd yn pennu llwyddiant Cymru yn dylanwadu ar ei gilydd. Yn y lle cyntaf, gosodwyd 46 o ddangosyddion cenedlaethol i weld sut oedd Cymru gyfan yn datblygu yn erbyn y nodau llesiant hyn. Credwn y bydd cyfres fach o gerrig milltir cenedlaethol yn helpu cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru i ganolbwyntio eu hymdrechion ar newidiadau allweddol a fydd yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddwn yn cyflawni'r nodau. Byddwn yn adrodd ar gynnydd yn erbyn yr holl ddangosyddion, ond gyda'r gyfres fach hon o gerrig milltir y credwn y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf, ac fe fyddwn yn eu defnyddio i ysgogi perfformiad ar draws holl gyrff cyhoeddus Cymru.

Mae gosod nifer bach o gerrig milltir yn gyson â chynghor Polisi Cyhoeddus Cymru⁴ y dylid cyfyngu ar nifer y prif ddangosyddion cenedlaethol. Bydd cyfres fach yn helpu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y materion pwysicaf oll, ac yn golygu bod modd i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r gyfres. Bydd hyn yn adlewyrchu natur integredig y nodau llesiant, yng nghyd-destun cyfnod hir o gyni ac ansicrwydd Brexit.

Bydd cerrig milltir a osodir gan ddefnyddio'r maen prawf hwn yn cyfrannu tuag at **integreiddio**, gan ein helpu i asesu cynnydd tuag at fwy nag un nod llesiant a sicrhau bod y cerrig milltir yn parhau â'r trywydd o ran polisi a ddechreuodd wrth gychwyn y Ddeddf.

⁴ Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) Measuring Progress on Well-being: The Development of National Indicators
<http://ppi.w.org.uk/files/2015/10/Measuring-Progress-on-Well-being-The-Development-of-National-Indicators.pdf>

2

Cyfle i'n Llywodraeth ddatganoledig ddylanwadu'n sylweddol arnynt

Beth yw'r rheswm dros y maen prawf hwn?

Mae'r nodau llesiant yn gosod uchelgais ar gyfer Cymru gyfan. Gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar nifer o'r camau gweithredu sy'n cyfrannu at y saith nod llesiant, ond mae gweithredoedd unigolion, Llywodraeth y DU a digwyddiadau ar lwyfan y byd hefyd yn dylanwadu yn sylweddol arnynt. Bydd pob un o'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y dangosyddion cenedlaethol, ond yn y cerrig milltir rydym am nodi'r pethau y gallwn ddylanwadu fwyaf arnynt drwy ein penderfyniadau, ein cyllid, ein rhaglenni a gweithredoedd ein partneriaid. Ni ddylai'r rhain gael eu defnyddio fel mesurau perfformiad ar gyfer unrhyw gorff cyhoeddus neu wasanaeth unigol, ac ni ddylent chwaith fod yn ffyrdd o fesur polisiâu neu raglenni unigol, ond fe ddylent roi cyfle i ni weithredu gyda'n gilydd i newid y trywydd.

Bydd cerrig milltir sy'n cael eu gosod gan ddefnyddio'r maen prawf hwn yn cyfrannu tuag at **gyfranogaeth**, gan annog trafodaeth ar bob lefel o'n prosesau democrataidd i gyflawni'r cerrig milltir gan ddefnyddio'r pwerau sydd gennym.

3

Bydd cyflawni'r garreg filltir hon yn hwyluso cynnydd mewn amrywiol feysydd

Beth yw'r rheswm dros y maen prawf hwn?

Bydd y cerrig milltir gorau yn ein helpu i sicrhau cynnydd mewn nifer o feysydd. Byddant yn adlewyrchu gweithredoedd amrywiaeth o bobl a sefydliadau, ac yn dangos ein bod yn symud ymlaen tuag at fwy nag un o'r nodau llesiant. Mae'n byd yn un cymhleth, ac mae angen i'n cerrig milltir adlewyrchu'r manteision lluosog y gellid eu cyflawni drwy ein gweithredoedd - er enghraifft, y cysylltiad rhwng addysg ac iechyd, y cysylltiad rhwng yr amgylchedd a chymunedau iach, cydnerth, y cysylltiad rhwng addysg a chyflogaeth a'r cysylltiad rhwng gweithlu medrus ac economi ffyniannus, gynaliadwy.

Bydd cerrig milltir sy'n cael eu gosod gan ddefnyddio'r maen prawf hwn yn cyfrannu tuag at **atal**, gan sicrhau bod yr ymdrech a wneir mewn un maes yn fanteisiol i feysydd eraill, yn hytrach na'u bod yn cystadlu â'i gilydd.

4

Bydd cyflawni'r garreg filltir hon yn cael effaith dros genedlaethau, drwy atal canlyniadau gwael a fyddai'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol

Beth yw'r rheswm dros y maen prawf hwn?

Dylai'r cerrig milltir fesur canlyniadau sy'n taro tant gyda'r cyhoedd yng Nghymru ac sy'n bwysig iddynt. Dylent adrodd stori glir am ein cynnydd tuag at Gymru lewyrchus, gydnerth, fwy cyfartal ac iachach, gyda chymunedau cydynus, diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Dylent adlewyrchu'r camau y gallwn eu cymryd nawr i sicrhau dyfodol mwy disglair i'r cenedlaethau i ddod, gan gynllunio i osgoi problemau y gellir eu hatal.

Bydd cerrig milltir a osodir gan ddefnyddio'r maen prawf hwn yn cyfrannu tuag at ddull gweithredu **hirdymor**, gan gyflawni canlyniadau yn y tymor canolig a fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaus.

5

Angen camau gweithredu gan nifer o bartneriaid

Beth yw'r rheswm dros y maen prawf hwn?

Nid oes modd i'r nodau llesiant gael eu cyflawni gan unrhyw sefydliad wrth ei hun. Nid yw'r cerrig milltir cenedlaethol, felly, yn dargedau perfformiad ar gyfer unrhyw gorff cyhoeddus unigol, ond gall y gyfres gywir helpu amrywiol bartneriaid i gydweithio i gyflawni'r nodau llesiant. Rydym am i'r gyfres fach hon fod mor berthnasol â phosib i bartneriaid cyflawni ar draws Cymru, fel bod modd i'r cynnydd helpu cyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau am yr hyn y maen nhw'n ei wneud a'r hyn a allai newid o ganlyniad.

Bydd cerrig milltir sy'n cael eu gosod gan ddefnyddio'r maen prawf hwn yn cyfrannu tuag at **gydweithio**, gan gynhyrchu trafodaeth rhwng partneriaid a rhoi sylw i wraidd materion.

Y dangosyddion cenedlaethol y byddwn yn eu defnyddio i osod cerrig milltir cenedlaethol

Wrth osod cyfres fach o gerrig milltir cenedlaethol, mae'n hanfodol iddynt ganiatáu i Weinidogion Cymru asesu'r cynnydd yn erbyn bob un o'r saith nod llesiant (llewyrch, cydnerthedd, iechyd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynus, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu). Nid oes modd gwneud hyn yn effeithiol drwy osod carreg filltir unigol i bob nod, felly mae'n rhaid cymryd y gyfres gyda'i gilydd a'u hystyried fel cyfanwaith.

Rydym yn cynnig y dangosyddion cenedlaethol canlynol o'r gyfres bresennol⁵ o 46 fel rhai i'w defnyddio i osod cerrig milltir.

Dangosydd Cenedlaethol 2

Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig

Dangosyddion Cenedlaethol 3 a 5

Canran yr oedolion/plant sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw

Nodiadau: Byddem yn datblygu cerrig milltir ar wahân i oedolion a phlant, yn sgil y gwahanol ffynonellau a diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol hyn.

5 <https://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-cy.pdf>

Dangosydd Cenedlaethol 7

Sgôr capio 9 cyfartalog disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Nodiadau: Gan ystyried pwysigrwydd ein system addysg genedlaethol ar gyfer cyflawni potensial cenedlaethau'r dyfodol, gellid dadlau'n gryf y byddai carreg filltir ynghylch perfformiad ysgolion uwchradd yn bodloni ein maen prawf arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r dangosydd cenedlaethol presennol wedi'i seilio ar y mesur presennol o berfformiad ysgolion uwchradd, y gwyddom y bydd yn debyg o newid yn y dyfodol wrth i Weinidogion gadarnhau fframwaith atebolrwydd newydd i ysgolion, ac mae'n ddarostyngedig i'r newidiadau rheolaidd wrth fesur perfformiad ysgolion.

Er enghraifft, mae diffiniad y mesur Capio 9 a ddefnyddir ar gyfer y dangosydd cenedlaethol presennol wedi newid yn sylweddol sawl gwaith dros y blynyddoedd diwethaf. Felly er ei fod yn ddangosydd dilys ar gyfer mesurau atebolrwydd presennol, mae'n bosib nad yw'n fesur priodol i ystyried cerrig milltir hirdymor.

Ar ben hynny, mae pryderon ynghylch teimladau'r cyhoedd am fesur o'r fath yn sgil ei gymhlethdod a'r amrywiol ffyrdd y gellid cynnwys cymwysterau o fewn y mesur.

Os bydd ymatebwyr yn ystyried ei bod yn bwysig cynnwys carreg filltir genedlaethol ar berfformiad ysgolion, bydd angen mireinio'r dangosydd cenedlaethol mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid. Er enghraifft, efallai y byddwn am osod carreg filltir genedlaethol ar berfformiad mewn pynciau unigol ar ddiwedd yr ysgol uwchradd, a allai fod yn fwy tebygol o oroesi dros amser, neu ganolbwyntio mwy ar ddsbarthiad perfformiad ar draws grwpiau o ddisgyblion.

Dangosydd Cenedlaethol 8

Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

Dangosydd Cenedlaethol 10

Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen

Nodiadau: Fe gafodd y dangosydd hwn ei gynnwys fel carreg filltir arfaethedig, ond rydym hefyd yn gwybod bod modd i benderfyniadau Llywodraeth y DU a'r amodau economaidd ehangach ddylanwadu'n sylweddol ar gynydd yn erbyn y dangosydd hwn.

O ganlyniad, yn hytrach na gosod targed o un pwynt pendant yma, byddwn yn ystyried defnyddio dull gweithredu gwahanol sy'n canolbwyntio ar ein sefyllfa o gymharu â gweddill y DU, targed sy'n cynnwys 'ystod' neu rywbeth gwahanol (gweler tudalen 13).

Dangosydd Cenedlaethol 17

Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau

Nodiadau: Yn unol â'n nod o sicrhau bod y dangosyddion cenedlaethol ar gael ar gyfer gwahanol grwpiau o'r boblogaeth gymaint â phosibl, rydym yn bwriadu edrych i weld a fyddai'n ymarferol datblygu'r dangosydd hwn ar gyfer gwahaniaethau cyflog o ran anabledd ac ethnigrwydd. Bydd rhaid ystyried pa ffynonellau data sydd ar gael a pha mor gadarn y byddai unrhyw ddangosydd. Byddai unrhyw ymgais i osod carreg filltir genedlaethol ar gyfer gwahaniaethau cyflog o ran anabledd neu ethnigrwydd yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith hwnnw.

Dangosydd Cenedlaethol 18

Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn

Nodiadau: Fe gafodd y dangosydd hwn ei gynnwys fel carreg filltir arfaethedig yn sgil y pwysigrwydd rydym yn ei osod ar leihau tlodi yng Nghymru, ond rydym hefyd yn gwybod nad yw nifer o'r ysgogiadau angenrheidiol i wneud hyn o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, a bod modd i benderfyniadau Llywodraeth y DU a'r amodau economaidd ehangach ddylanwadu'n sylweddol ar gynnydd yn erbyn y dangosydd hwn.

Mae nifer o'r dangosyddion eraill sydd wedi'u cynnwys yn y gyfres hon yn mesur meysydd a all ddylanwadu ar dlodi, meysydd fel iechyd, addysg, sgiliau a chyflogaeth. Yn y meysydd hyn, mae mwy o'r ysgogiadau wedi'u datganoli felly mae gennym fwy o allu i ddylanwadu ar eu canlyniadau.

Os bydd ymatebwyr yn ystyried ei bod yn bwysig gosod carreg filltir ar gyfer y dangosydd hwn, fe fyddwn yn defnyddio dull gweithredu gwahanol yn hytrach na tharged o un pwynt pendant. Gallai hyn fod yn ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ein sefyllfa o gymharu â gweddill y DU, targed sy'n cynnwys 'ystod' neu rywbeth gwahanol (gweler tudalen 13).

Dangosydd Cenedlaethol 21

Canran y bobl sydd mewn gwaith

Nodiadau: Fe gafodd y dangosydd hwn ei gynnwys fel carreg filltir arfaethedig, ond rydym hefyd yn gwybod bod modd i benderfyniadau Llywodraeth y DU a'r amodau economaidd ehangach ddylanwadu'n sylweddol ar gynnydd yn erbyn y dangosydd hwn.

O ganlyniad, yn hytrach na gosod targed o un pwynt pendant yma, byddwn yn ystyried defnyddio dull gweithredu gwahanol sy'n canolbwyntio ar ein sefyllfa o gymharu â gweddill y DU, targed sy'n cynnwys 'ystod' neu rywbeth gwahanol (gweler tudalen 13).

Dangosydd Cenedlaethol 22

Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran

Dangosydd Cenedlaethol 23

Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol

Nodiadau: Byddai'n anodd gosod carreg filltir ar gyfer y mesur hwn gan nad yw'n wrthrychol, ac nad oes data ar gael am fwy nag ychydig flynyddoedd. Ar ben hynny gallai fod yn anodd deall effaith bosib yr ymyriadau ar gyflymder y cynnydd, ac o ganlyniad ble y gellid gosod carreg filltir realistig. Roeddem am sicrhau, fodd bynnag, ein bod yn cynnwys pwysigrwydd cyfranogiad a chanfyddiad y dinasyddion am y cyfraniad y gallant ei wneud i gymdeithas.

Dangosydd Cenedlaethol 29

Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl

Nodiadau: Byddem yn datblygu cerrig milltir ar wahân i oedolion a phlant, yn sgil y gwahanol ffynonellau a diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer y dangosydd cenedlaethol hyn.

Dangosydd Cenedlaethol 37

Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg

Nodiadau: Gan gofio bod uchelgais cenedlaethol eisoes yn bodoli i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, hon fyddai ein carreg filltir genedlaethol ar destun y Gymraeg. O ganlyniad, byddai'r dangosydd cenedlaethol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu nifer yn hytrach na chanran y siaradwyr Cymraeg.

Dangosydd Cenedlaethol 41

Allryiadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru

Nodiadau: Rydym yn cynnig diwygio'r dangosydd hwn i'w gysoni â Rhan 2 (35) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Y prif newid yw cynnwys cyfran Cymru o awyrennau rhyngwladol a llongau rhyngwladol. Bydd angen i'r garreg filltir a osodir yn erbyn y dangosydd hwn hefyd fod yn gydnaws â Deddf yr Amgylchedd, gydag adroddiadau ffurfiol bob 5 mlynedd. Bydd tueddiadau yn cael eu monitro'n amlach gan ddefnyddio data a gyhoeddwyd ynghylch allyriadau.

Dangosydd Cenedlaethol 44

Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru

Nodiadau: Mae'n bwysig i'n cyfres o gerrig milltir cenedlaethol ganiatáu i ni asesu perfformiad yn erbyn y nodau gyda'i gilydd. Rhaid i hyn gynnwys yr angen i sicrhau bod amgylchedd naturiol Cymru yn iach ac yn gynaliadwy. Credwn ei bod yn bwysig cynnwys carreg filltir genedlaethol sy'n ein helpu i ddeall cynnydd yn y maes hwn, er enghraifft un opsiwn posib fyddai defnyddio'r dangosydd cenedlaethol ar statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae heriau ymarferol i wneud hynny. Er enghraifft, er bod gwaith wedi'i gomisiynu i edrych ar botensial y data sydd ar gael ynghylch bioamrywiaeth yng Nghymru i ddatblygu dangosydd cenedlaethol priodol, mae yn y broses o gael ei ddatblygu o hyd. Ar ben hynny, gan ystyried yr amrywiol ddata a thueddiadau a allai fod yn gysylltiedig â datblygu dangosydd cyfansoddol ynghylch bioamrywiaeth, gellid dod i'r casgliad nad yw'n ymarferol gosod carreg filltir genedlaethol.

Felly os, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, y bydd yn cael ei ystyried yn bwysig cael carreg filltir genedlaethol yn y maes hwn, byddem am gynnwys a chydweithio ag arbenigwyr gwyddonol a pholisi i ystyried yr opsiynau ar gyfer gosod carreg filltir briodol.

Sut fedrwn ni helpu Gweinidogion Cymru i fesur cynnydd y genedl?

Ceir crynodeb isod o'r ffordd y bydd cerrig milltir cenedlaethol gyda'i gilydd yn helpu i ddarparu asesiad cytbwys o'r cynnydd tuag at y saith nod llesiant.

Y Gymru a Garem

Ein hamcanion cyffredin – saith nod llesiant Cymru

Cymru Lewyrchus (1)	Cymru Gydnerth (2)	Cymru Iachach (3)	Cymru Fwy Cyfartal (4)	Cymru o Gymunedau Cydlynus (5)	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6)	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7)
---------------------	--------------------	-------------------	------------------------	--------------------------------	---	---

Y ffordd y byddwn yn gosod graddfa a chyflymder y newid

Dangosyddion cenedlaethol arfaethedig y byddwn yn gosod y cerrig milltir cenedlaethol yn eu herbyn		1	2	3	4	5	6	7
02	Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig							
03	Canran yr oedolion sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw							
05	Canran y plant sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw							
07	Sgôr Capió 9 cyfartalog disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim							
08	Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol							
10	Incwm Gros Aelwydydd y pen							
17	Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau							
18	Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn							
21	Canran y bobl sydd mewn gwaith							
22	Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran							
23	Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol							
29	Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl							
37	Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg							
41	Allryiadau nwyon tŷgwydr yng Nghymru							
44	Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru							

Defnyddio'r Cerrig Milltir Cenedlaethol

Wrth roi'r Ddeddf ar waith, rydym wedi ceisio gwreiddio'r gofynion yn ein gwaith o ddydd i ddydd – gan fanteisio ar y cyfle sy'n cael ei gynnig gan y Ddeddf i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y gwahaniaethau rydyn ni am eu gwneud heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym wedi dilyn yr un dull gweithredu wrth osod y cerrig milltir.

Rydym wedi cynhyrchu cyfres fach o feini prawf sy'n adlewyrchu'r nodau llesiant, ond sydd hefyd yn adlewyrchu'r meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf, yn unol â'n blaenoriaethau a lle gall cynnydd cadarnhaol gyfrannu at nifer o'r nodau llesiant. Drwy weithredu fel hyn, rydym yn bwriadu defnyddio'r cerrig milltir i helpu i ganolbwyntio ein gweithgarwch ni a gweithgarwch ein partneriaid i wella perfformiad dros gyfnod o amser.

Felly yn ogystal ag asesu cerrig milltir yn erbyn y nodau llesiant, rydym wedi ystyried sut y gallwn eu defnyddio i symud ymlaen â'n hamcanion llesiant, fel y gwelir yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol.

Ffyniannus a Diogel

Amcanion Llesiant

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg
- Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

Cerrig Milltir Arfaethedig

Mae'r amcanion llesiant hyn yn canolbwyntio ar helpu busnesau i dyfu a ffynnu mewn ffordd gynaliadwy, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fanteisio ar dwf economaidd.

Rydym yn cynnig cerrig milltir sy'n monitro lefelau cyflogaeth yng Nghymru ac sy'n dangos sut rydym yn gwneud yn iawn am anghydraddoldeb yn y gweithle ac mewn lefelau incwm. Rydym hefyd am weld y cyfraniad mae gwella ein lefelau sgiliau yn ei wneud i dwf economaidd a chynhyrchiant, ynghyd ag adlewyrchu'r amodau angenrheidiol i unigolion fanteisio ar gyfleoedd gwaith. Rydym yn dweud yn glir ein bod am annog twf economaidd cynaliadwy, ac y gall hyn wneud cyfraniad sylweddol i ddatgarboneiddio Cymru.

- Sgôr Capio 9 cyfartalog disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.
- Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen.
- Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau.
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tloidi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.
- Canran y bobl sydd mewn gwaith.
- Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.
- Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru.

Iach ac Egniol

Amcanion Llesiant

- Darparu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n addas at y dyfodol
- Hyrwyddo iechyd a llesiant i bawb
- Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell

Cerrig Milltir Arfaethedig

Nod ein hamcanion iach ac egniol yw helpu unigolion i wneud penderfyniadau ynghylch ffordd o fyw sy'n atal afiechyd lle bynnag y bo hynny'n bosib, gan gefnogi'r amgylchedd cywir i hwyluso byw'n iach a darparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy pan fo'r angen yn codi.

Rydym yn cynnig cerrig milltir sy'n cynnwys elfen ataliol yr agenda hwn – gan adlewyrchu effaith dewisiadau ffordd o fyw iach ar iechyd da ac anghydraddoldebau iechyd parhaus rhwng y rhai o gefndir mwy a llai difreintiedig. Rydym hefyd yn cynnig gosod carreg filltir ar gyfer nwyon tŷ gwydr, fel procsi ar gyfer mesurau awyr lân. Er ein bod wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaethau iechyd effeithiol, ac yn mynd i fonitro perfformiad yn erbyn targedau sydd eisoes yn bodoli, nid oeddem yn ystyried bod y rhain yn gerrig milltir hirdymor priodol sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o gyfraniadau y bydd cyrff sector cyhoeddus ac unigolion yn eu gwneud i iechyd Cymru.

- Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig.
- Canran yr oedolion sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw.
- Canran y plant sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw.
- Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tldi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.
- Canran y bobl sydd mewn gwaith.
- Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.
- Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl.
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Uchelgais a Dysgu

Amcanion Llesiant

- Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw
- Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid

Cerrig Milltir Arfaethedig

Mae'n hamcanion llesiant yn cynnwys ein hymrwymiad i osod sylfaen gadarn ar gyfer dysgu llwyddiannus o oedran cynnar a sicrhau cyfleoedd i barhau i ddysgu drwy gydol bywyd unigolyn.

Mae'n cerrig milltir arfaethedig yn adlewyrchu cyrhaeddiad addysgol ar adegau penodol ym mywyd unigolyn – wrth adael addysg orfodol, ar eu taith i fyd gwaith a hyfforddiant a lefelau sgiliau'r boblogaeth sy'n oedolion. Mae'n cerrig milltir arfaethedig hefyd yn adlewyrchu'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol, a'n hymrwymiad i dorri'r cysylltiad hwnnw. Rydym yn awyddus i gynnwys manteision ehangach addysg yn nhermau iechyd a llesiant ac adlewyrchu rôl y system addysg wrth gyflawni ein hamcan o weld y Gymraeg yn ffynnu.

- Canran yr oedolion sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw.
- Canran y plant sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw.
- Sgôr Capió 9 cyfartalog disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Canran yr oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.
- Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.
- Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl.
- Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Unedig a Chysylltiedig

Amcanion Llesiant

- Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig
- Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd

Cerrig Milltir Arfaethedig

Mae'r nodau llesiant yn y bennod hon yn rai sy'n galluogi. Nid ydynt yn ganlyniadau ynddynt eu hunain, ond yn hytrach maent yn amodau cyffredinol sy'n effeithio ar y ffordd y gallwn fyw ein bywydau – gweithio, gorffwys a chwarae. Mae'n heriol mynegi rhain mewn nifer fach o gerrig milltir seiliedig ar ganlyniadau.

Rydym yn cynnig grŵp o gerrig milltir sy'n dangos yr hyn mae'n ei gymryd a'r hyn mae'n ei olygu i fyw mewn cymuned gefnogol a chynaliadwy sy'n adlewyrchu ein hunaniaeth Gymreig. Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes cerrig milltir defnyddiol i nodi ein hamcanion ar gyfer seilwaith modern a chysylltiedig ac fel cenedl falch yn rhyngwladol, ac eithrio mesurau allbynnau, ond byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar hyn drwy'r ymgynghoriad.

- Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig.
- Canran yr oedolion sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw.
- Canran y plant sy'n dilyn llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw.
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.
- Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.
- Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.
- Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru.

Sut bydd y cerrig milltir cenedlaethol yn cael eu gosod

Pan fydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cadarnhau'r meini prawf i'w defnyddio i osod y cerrig milltir cenedlaethol, y gyfres o ddangosyddion cenedlaethol y bydd y cerrig milltir yn cael eu gosod yn eu herbyn, ac unrhyw ddiwygiadau i'r dangosyddion cenedlaethol.

Bydd y cerrig milltir cenedlaethol yn dangos graddfa a chyflymder y newid sy'n ofynnol os ydym am gyflawni'r saith nod llesiant ac, fel y dangosyddion cenedlaethol, yn mesur canlyniadau ac nid targedau cyflawni gwasanaethau. Pan fyddwn wedi cytuno ar y dangosyddion y bydd y cerrig milltir yn cael eu gosod yn eu herbyn, byddwn yn gweithio gyda'r cyrff cyhoeddus ac arbenigwyr i ystyried dull gweithredu ar gyfer pob carreg filltir benodol.

Gellid defnyddio amrywiol dechnegau dadansoddi i ddatblygu cerrig milltir. Wrth edrych ar effeithiau ar draws cenedlaethau ac ymlaen i'r dyfodol, mae'n anodd tu hwnt i ddeall pa effaith y gellid ei chael ac erbyn pryd. Mae'r dangosyddion cenedlaethol hyn yn mesur canlyniadau amrywiol ffactorau cymhleth sy'n effeithio ar ei gilydd. Felly mae angen dull ystyriol o osod cerrig milltir cenedlaethol sy'n sensitif i gyd-destun ein gwaith.

Efallai bod **carreg filltir "un pwynt i'r llall"** yn briodol ar gyfer rhai dangosyddion – hynny yw pennu ffigur nawr yr ydym am ei gyflawni erbyn blwyddyn benodol yn y dyfodol. Neu mae'n bosib y byddwn am ddefnyddio methodoleg "troi'r gornel" a **chynnig ystod o ganlyniadau posib yr hoffem eu gweld** ar gyfer dangosydd penodol.

Pan fo dangosydd yn ddibynnol iawn ar rannau eraill o'r DU neu ffactorau byd-eang, efallai y byddai'n fwy priodol edrych ar **ein sefyllfa o gymharu â gwledydd eraill**.

Efallai y byddwn yn ystyried mai'r mater pwysicaf wrth weld cynnydd yn erbyn y nodau llesiant yw **newid y gwasgariad ar draws y boblogaeth**. Er enghraifft, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfartaledd y gellid ei wella drwy ganolbwyntio ar un grŵp o'r boblogaeth, efallai y byddwn am edrych ar y bwch rhwng gwahanol grwpiau o'r boblogaeth a gosod carreg filltir yn unol â hynny.

Mae'r 'Adroddiad Llesiant Blynyddol' (a gyhoeddir fel adroddiad Llesiant Cymru⁶) yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yng Nghymru tuag at gyflawni'r saith nod llesiant gan ddefnyddio'r dangosyddion cenedlaethol. Yn y dyfodol bydd hefyd yn cyfeirio at y cerrig milltir.

Mae'r Adroddiad Llesiant Blynyddol yn cael ei ystyried gan Gomisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wrth baratoi a chyhoeddi 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol', a gan Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru a Chyrff Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf wrth ddadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd a gosod amcanion.

6 <https://gov.wales/statistics-and-research/well-being-wales/?skip=1&lang=cy>

Newidiadau i'r dangosyddion cenedlaethol presennol

Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod dangosyddion cenedlaethol i asesu'r cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant. O fis Medi 2015 i fis Ionawr 2016 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus helaeth i nodi pa gyfres o ddangosyddion y dylid eu datblygu i fesur cynnydd yn erbyn y nodau llesiant.

Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn eu cyhoeddi fis Mawrth 2016 a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad Llesiant Cymru blynyddol yn defnyddio'r dangosyddion cenedlaethol a data eraill i gyflwyno darlun o'r cynnydd rydym yn ei wneud tuag at gyflawni'r nodau.

Y bwriad o'r cychwyn oedd y dylai'r dangosyddion hyn fod yn rhai hirdymor, a dim ond am ddwy flynedd yr adroddwyd arnynt hyd yma. Credwn fod y dangosyddion, yn gyffredinol, yn darparu darlun cyflawn o'r cynnydd yn erbyn y nodau. Felly nid ydym yn credu mai dyma'r amser iawn i agor trafodaeth eang ar y dangosyddion cenedlaethol a thynnu sylw oddi ar y mater pwysig o osod cerrig milltir cenedlaethol.

Fodd bynnag, rydym yn derbyn y gall fod angen diwygio'r dangosyddion a osodwyd er mwyn sicrhau bod y cerrig milltir yn gwbl gyson. Wrth ystyried cynigion ar gyfer y cerrig milltir newydd, efallai y bydd rhanddeiliaid hefyd yn cynnig achos cryf dros gerrig milltir sy'n gofyn am ddangosyddion cenedlaethol newydd. Ar ben hynny, ar ôl dwy flynedd o adrodd, gallai rhanddeiliaid gynnig achos cryf dros welliannau i'r gyfres o ddangosyddion.

Mae gwaith arall eisoes yn mynd rhagddo a allai olygu ei bod yn bryd diwygio'r dangosyddion cenedlaethol. Un ystyriaeth o'r fath fydd yr adroddiad gan y Comisiwn Gwaith Teg, a ddisgwyllir ym mis Mawrth 2019. Mae'r Comisiwn wedi bod yn ystyried datblygiad y dangosyddion a mesurau gwaith teg. Pan fydd wedi'i gyhoeddi, byddwn yn ystyried os oes unrhyw oblygiadau i'r dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir.

Rydym yn gofyn am gynigion eraill ar gyfer mân welliannau i'r gyfres o ddangosyddion cenedlaethol a fydd yn cefnogi ein nod o fesur y canlyniadau i Gymru a phobl Cymru. Rydym yn anelu am gyfres fach o ddangosyddion sy'n ein helpu i ddeall y cynnydd tuag at y nodau llesiant, yn hytrach na dangosyddion perfformiad ar gyfer cyrff unigol.

Atodiad A – Templedi Ymateb

Defnyddiwch y templed hwn os ydych am newid naill ai'r meini prawf arfaethedig, yr is-gyfes o ddangosyddion cenedlaethol yr ydym yn cynnig eu defnyddio i osod cerrig milltir cenedlaethol, neu ddiwygio'r dangosyddion cenedlaethol presennol.

A. Newidiadau i'r meini prawf i ddewis dangosyddion cenedlaethol ar gyfer datblygu'r cerrig milltir cenedlaethol

1. A ydych yn cynnig unrhyw newidiadau i'r meini prawf?

Ydw

Nac ydw

2. Os ydych, a yw'r newid arfaethedig yn faen prawf ychwanegol neu yn welliant i un o'r meini prawf presennol? (Ticiwch un blwch)


Ychwanegol

Gwelliant

3. Os yw'n welliant, pa faen prawf presennol fydd yn cael ei wella?

4. Nodwch eich maen prawf newydd neu ddiwygiedig.

5. Nodwch sut bydd y maen prawf newydd neu ddiwygiedig hwn yn cyd-fynd â'r meini prawf eraill ac yn cynorthwyo i ddatblygu cyfres fach o gerrig milltir cenedlaethol a fydd yn helpu Gweinidogion i asesu cynnydd Cymru gyfan tuag at y saith nod llesiant.




6. A ydych yn cynnig dileu unrhyw un o'r meini prawf presennol?

Ydw

Nac ydw

Os felly, pa faen prawf yr hoffech ei ddileu a pham?



B. Newidiadau i'r gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol y byddwn yn eu defnyddio i ddatblygu cerrig milltir cenedlaethol

7. A ydych yn cynnig unrhyw newidiadau i'r gyfres fach o ddangosyddion cenedlaethol yr ydym yn cynnig eu defnyddio i osod cerrig milltir cenedlaethol?

Ydw

Nac ydw

8. A ydych chi'n cynnig dileu neu ychwanegu dangosyddion cenedlaethol o'r gyfres fach yr ydym yn cynnig eu defnyddio i osod y cerrig milltir cenedlaethol? (Ticiwch un neu fwy o'r blychau)


Dileu

Ychwanegu


9. Os ydych yn cynnig ychwanegu dangosydd cenedlaethol i osod carreg filltir yn ei erbyn, pa ddangosydd cenedlaethol ydych chi'n cynnig ei ychwanegu?

Ystyriwch pa ddangosyddion cenedlaethol y gellid eu dileu hefyd, er mwyn cadw cyfres fach ohonynt neu leihau'r nifer ymhellach.

10. Os ydych yn cynnig dileu dangosyddion cenedlaethol yr ydym ar hyn o bryd yn cynnig eu defnyddio i osod cerrig milltir, pa rai ydych chi'n cynnig eu dileu?




11. Rhowch esboniad am eich newid arfaethedig, a'i gyfraniad i'r nifer bach, cytbwys o gerrig milltir.



Mae dangosyddion 10, 18 a 21 yn cael eu dylanwadu'n drwm gan benderfyniadau Llywodraeth y DU a'r amodau economaidd ehangach. Mae'n rhaid i'r Cerrig Milltir Cenedlaethol fod yn rhai y gall ein llywodraeth ddatganoledig ni ddylanwadu'n sylweddol arnynt, felly ar gyfer y dangosyddion hyn ni fyddai'n briodol gosod targed sy'n un pwynt penodol. Yn hytrach, rydym yn awgrymu y byddai'n fwy priodol defnyddio rhai o'r dulliau eraill sy'n cael eu disgrifio ar dudalen 13.

12. A ydych chi'n cytuno â'r rhesymeg hwn, neu oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch sut i edrych ar feysydd nad ydynt yn llwyr o fewn cymhwysedd datganoledig?



C. Newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol

13. A ydych yn cynnig unrhyw newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol?

Ydw

Nac ydw

14. Pa fath o newid ydych chi'n ei gynnig i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol?
(Ticiwch un blwch o leiaf)


Dileu neu newid dangosydd presennol

Newydd

15. Os ydych chi'n cynnig newid i ddangosydd presennol neu'n cynnig dangosydd newydd, rhowch y fersiwn yr ydych yn ei chynnig.

16. Os ydych wedi cynnig dangosydd newydd, ystyriwch pa ddangosyddion cenedlaethol y gellid eu dileu, er mwyn cadw cyfres fach ohonynt neu leihau'r nifer ymhellach.

17. Os ydych yn cynnig dileu un o'r dangosyddion cenedlaethol presennol, nodwch pa un.



18. Nodwch sut bydd eich newid arfaethedig i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol yn ein helpu i fesur y cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

